Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2024-25

Gorffennaf 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Adroddiad Blynyddol 2024-25

Gorffennaf 2025


Dych chi'n gwylio
'Y Llais' ar S4C?
Dysgwr

# Cynnwys


**Rhagair .......... 6**

**Ein Perfformiad .......... 9**

Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd .......... 9

**Safonau Gwasanaeth .......... 10**

Busnes y Senedd .......... 10

Cyfathrebu mewnol .......... 10

Ymgysylltu .......... 11

Caffael a gweithio mewn partneriaeth .......... 12

Rhannu Arbenigedd .......... 12

Strategaeth Sgiliau .......... 14

**Gwybodaeth Ystadegol .......... 16**

Recriwtio .......... 16

Busnes y Senedd .......... 17

Trafodion .......... 20

**Themâu .......... 22**

Caffael .......... 22

Sgiliau Iaith .......... 22

Defnyddio Sgiliau Cymraeg .......... 23

**Monitro a Chydymffurfio .......... 24**

# Rhagair



**Adam Price AS**
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o baratoi strategol wrth i ni edrych ymlaen at y Seithfed Senedd. Yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, rhagwelir y byddwn yn gweld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau dwyieithog. Yn ogystal, bydd angen sicrhau bod ein darpariaeth ieithyddol yn parhau yn gadarn, yn effeithiol ac yn addas i'r dyfodol.

Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn parhau i fod yn gonglfaen i'n gwaith, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau urddas, parch ac amrywiaeth ieithyddol ar draws y sefydliad. Rydym yn falch o'r modd y mae ein staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, yn cyfrannu'n broffesiynol ac yn angerddol at gefnogi a darparu gwasanaethau i Aelodau'r Senedd, eu staff cymorth a'r cyhoedd yn y ddwy iaith swyddogol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cryfhau ein darpariaeth fewnol drwy ddatblygu adnoddau newydd, a pharhau i wella'r hyfforddiant ieithyddol sydd ar gael i Aelodau a staff fel ei gilydd. Mae'r llwyddiant y Modiwl Cwrteisi newydd a'r gwaith ar y Modiwl Hyder Cymraeg yn brawf o'n hymrwymiad i feithrin sgiliau a hyder ieithyddol ar bob lefel.

Mae'r flwyddyn hon hefyd wedi gweld datblygiadau newydd wrth i ni fabwysiadu'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd sy'n cynnig profiad dwyieithog o safon uchel ar gyfer defnyddwyr. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn wedi bod yn werthfawr, gan lywio ein dull o asesu tendrau a sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn deall ac yn parchu ethos dwyieithog y Senedd.

Rydym wedi parhau i rannu ein harbenigedd gyda sefydliadau eraill, gan groesawu amrywiaeth o ymwelwyr rhyngseneddol, ac wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu a chynadleddau. Mae'r berthynas agosach â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i feincnodi a gwella ein darpariaeth.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn parhau i adlewyrchu anghenion y sefydliad a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r flwyddyn i ddod yn cynnig cyfleoedd i gryfhau ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd, ac rydym yn benderfynol o barhau i arwain y ffordd fel deddfwrfa wirioneddol ddwyieithog. Yn y Seithfed Senedd, ein huchelgais yw gweld y Gymraeg yn iaith weithredol naturiol ym mhob agwedd ar fywyd y Senedd.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Ein Perfformiad

## Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd

Mae Senedd Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i'r Senedd a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

Prif nod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yw sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posibl ac yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau'r sawl sy'n ymwneud â ni. Yn anochel, mae'r newidiadau a ddaw yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn golygu y bydd angen i ni edrych o'r newydd ar y fframwaith ieithoedd swyddogol i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas a'n bod mewn sefyllfa i barhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf, gyda chynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau, a hynny yn ddiofyn.

# Safonau Gwasanaeth

## Busnes y Senedd

Gall Aelodau o'r Senedd baratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau yn eu dewis iaith. Mae'r timau integredig ar gyfer y pwyllgorau unigol yn paratoi dogfennau briffio yn unol â dymuniad aelodau'r pwyllgorau. Bydd yr holl ddogfennau a baratoir ar gyfer trafodion y pwyllgorau yn ddwyieithog, a gall Aelodau ddewis cyfrannu a thrafod yn eu dewis iaith. Gall Aelodau sy'n derbyn cefnogaeth gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol drefnu sesiynau i baratoi ar gyfer trafodion. Mae hyn yn aml yn cynnwys ymarfer ar gyfer cyflwyno datganiad 90 eiliad, gofyn cwestiwn yn y cyfarfod llawn, neu holi tyst mewn cyfarfod pwyllgor.

Mae'r Gwasanaeth Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol yn ganolfan arbenigedd ar gyfer gwybodaeth weithdrefnol, sgiliau ac adnoddau. Rhan o waith y Gwasanaeth yw darparu hyfforddiant arbenigol i staff Comisiwn y Senedd er mwyn sicrhau bod pwyllgorau'r Senedd yn derbyn cefnogaeth o'r radd flaenaf, ac yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys elfennau yn ymwneud â dwyieithrwydd pan fo'n briodol. Mae'r tîm hefyd wedi addasu'r canllawiau sydd ar gael i dystion ynghylch cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd, er mwyn sicrhau eu bod mor gyfforddus a phosibl wrth ymddangos gerbron Pwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am natur ddwyieithog pwyllgorau a'r ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd.

## Cyfathrebu mewnol

Yn dilyn trafodaethau ynghylch cyfathrebu ag Aelodau a'u staff cymorth, mae'r Tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau yn gweithio ar lunio templed newydd ar gyfer anfon negeseuon e-bost at Aelodau a'u Staff Cymorth. Roedd yn bwysig i Aelodau a'u Staff Cymorth adnabod negeseuon gan y tîm yn hawdd, a'u bod yn gallu gweld y wybodaeth yn ddiofyn yn eu dewis iaith swyddogol. Cafwyd adborth eisoes ar y templed a bydd angen gwaith pellach i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â rheolau hygyrchedd a seibr ddiogelwch y Senedd cyn y bydd modd ei lansio. Bydd y templed yn sicrhau bod gwybodaeth a anfonir at Aelodau ar ffurf addas ac yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol hefyd.

## Ymgysylltu

Wrth i Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ddod i rym, mae'r paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd bellach ar waith. Mae'n angenrheidiol ein bod yn creu ac yn rhannu gwybodaeth sy'n addas ar gyfer holl bobl Cymru er mwyn egluro'r newidiadau sydd ar ddod. Wrth geisio sicrhau bod holl bobl Cymru yn ymwybodol o'r newidiadau, bydd Aelodau a'u staff cymorth mewn sefyllfa unigryw i gyfleu'r wybodaeth wrth iddynt ddod i gysylltiad uniongyrchol â'u hetholwyr wrth eu gwaith yn yr etholaethau. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu wedi creu pecyn o adnoddau y gall Aelodau o'r Senedd eu defnyddio i drosglwyddo gwybodaeth am etholiad 2026 a'r newidiadau i'r system bleidleisio a'r etholaethau, a'r cyfan ar gael yn ddwyieithog.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi '25 Mlynedd o Deddfu yng Nghymru' i ddathlu chwarter canrif ers sefydlu'r Senedd ym Mehefin 2025. Mae'r casgliad o erthyglau yn ystyried yr elfennau sy'n cyfuno i wneud y broses ddeddfu yng Nghymru yn unigryw, gan gynnwys ein rôl fel deddfwrfa ddwyieithog. Y mae hefyd wedi parhau i gyhoeddi erthyglau sy'n ystyried diwygio Seneddol a newidiadau etholiadol ehangach megis cynigion yn ymwneud â chofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, adalw a dichell fwriadol.

Mae Ymchwil y Senedd wrthi yn datblygu tudalen o adnoddau yn ymwneud ag etholiad y Senedd yn 2026. Ymysg yr adnoddau, bydd erthyglau esboniadol, ac erthyglau manwl ar yr etholiad, diwygio seneddol a newidiadau etholiadol ehangach. Bydd yn defnyddio mapio rhyngweithiol ac inffograffeg i ddangos y newidiadau hyn yn weledol. Bydd hefyd yn cynhyrchu llinell amser yr etholiad fydd yn nodi dyddiadau pwysig yn arwain at yr etholiad flwyddyn nesaf.

Mae'n bwysig iawn bod staff Comisiwn y Senedd yn gwbl gyfarwydd â'r holl newidiadau hyn hefyd. Bydd angen iddynt ddarparu gwasanaethau i'r aelodau a etholir o dan y drefn newydd, ond hefyd, bydd angen iddynt fod yn barod i gyfleu'r wybodaeth wrth iddynt ymgysylltu ag eraill. Gall hynny fod yn eu bywydau personol, neu fel rhan o'u gwaith. Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu wedi creu adnoddau dwyieithog, hawdd i'w defnyddio ar gyfer staff y Comisiwn, ac wedi llunio deunydd arddangos ar gyfer adeilad y Senedd i gefnogi gwaith y Tîm Ymgysylltu hefyd. Mae'r wybodaeth a'r arddangosfeydd oll yn adlewyrchu ethos naturiol ddwyieithog Senedd Cymru.

## Caffael a gweithio mewn partneriaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Comisiwn y Senedd wedi mabwysiadu system adnoddau dynol a chyflogres newydd. Mae'r gallu i weithio yn ddwyieithog yn rhan annatod o'r ddarpariaeth, gyda'r holl system ar gael yn newis iaith swyddogol y defnyddiwr. Defnyddiwyd y gofynion answyddogaethol fel rhan o'r broses gaffael, a chafodd y tendrau eu hasesu yn erbyn y gofynion hynny. Wrth brofi a mabwysiadu'r system newydd, mae sawl mater yn ymwneud â'r gallu i weithio yn newis iaith swyddogol yr unigolyn wedi codi. Bu'n rhaid i'r tîm weithio gyda meddalwedd trydydd parti i sicrhau ansawdd a chywirdeb iaith y system. Wedi buddsoddiad amser ychwanegol gan dîm y prosiect, a'r timau cyfieithu ac adnoddau dynol, llwyddwyd i sicrhau system ddwyieithog o ansawdd uchel ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth a Staff y Comisiwn. Bydd gwaith ar y prosiect yn parhau wrth i ni fabwysiadu elfennau ychwanegol o'r system yn raddol dros y flwyddyn sydd i ddod. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi dysgu llawer am gaffael systemau dwyieithog, a bydd y gwersi hyn yn cael eu cofnodi ynghyd ag unrhyw wersi eraill a ddysgwyd fel rhan o'r prosiect.

## Rhannu Arbenigedd

Mae rhannu ein profiadau a'n harbenigedd a dysgu gan eraill yn bwysig i Gomisiwn y Senedd. Eleni, yn ôl ein harfer, rydym wedi ymgysylltu ag eraill i gynnig trosolwg o'n gwaith, neu i gynnig cyfle i bobl brofi ein harferion gwaith. Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'r ddarpariaeth i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, roedd ein Tiwtoriaid Cymraeg ar gael i ddarparu Gwers Flasu ar gyfer dechreuwyr a sesiwn Clonc Cyflym i bobl ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Mae'r ddau beth yn rhan annatod o ddarpariaeth y tîm yn fewnol, ac mae'n braf gallu rhannu'r dulliau gweithio hyn yn ehangach. Mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi darparu sesiynau yn cyflwyno ar weithio'n ddwyieithog a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Gwnaed cyflwyniadau fel rhan o'r Wythnos Dysgu yn y Gweithle Rhyng-Seneddol, ac ymweliadau gan Gynulliad Gogledd Iwerddon a Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Yn ogystal, croesawodd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi fyfyrwyr y cwrs MA mewn Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol yn ddiweddar. Clywodd y myfyrwyr am ein gwaith ar dechnoleg iaith a gweithio'n ddwyieithog yn ogystal â chyfieithu ar y pryd mewn trafodion a ddarlledir fel rhan o'r diwrnod.

Mae ein gwaith yn paratoi ar gyfer y Seithfed Senedd yn galw am werthusiad o'r fframwaith ieithoedd swyddogol. Fe fyddwn yn cynnal adolygiad o'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ystod y flwyddyn i ddod fel rhan o'n paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd. Yn ogystal, byddwn yn

ymgynghori ag Aelodau, eu staff cymorth a staff Comisiwn y Senedd i ddeall eu barn am y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, ein gwasanaethau dwyieithog, a'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi pobl i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg wrth eu gwaith. Bydd yr adborth yn werthfawr tu hwnt wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran ein darpariaeth hefyd yn holl bwysig, ac i'r perwyl hwn, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi sicrhau ein bod yn sefydlu ac yn cynnal perthnasau gyda chyrff blaenllaw eraill yn y maes hwn. Mae'r Tiwtoriaid Cymraeg yn derbyn gwybodaeth yn rheolaidd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi yn ôl yr angen. Bydd y Tiwtoriaid hefyd yn mynychu cynadleddau'r Ganolfan pan fo'n bosibl er mwyn creu cysylltiadau a sicrhau eu bod yn dysgu am arferion gorau ar gyfer cefnogi siaradwyr newydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi sefydlu perthynas mwy gweithredol â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Sefydlwyd pwynt cyswllt penodol ar gyfer rhannu arbenigedd a cheisio cymorth o hyn ymlaen. Bydd y Tîm Ieithoedd Swyddogol yn derbyn gwahoddiadau i sesiynau briffio a hyfforddi, ac yn ymuno yng Nghynhadledd y Comisiynydd ar ddefnyddio Cymraeg yn y Gweithle fis Gorffennaf. Fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer y Seithfed Senedd bydd y berthynas yn werthfawr iawn o ran meincnodi safonau a darpariaeth a derbyn adborth ar unrhyw newidiadau posibl.

## Strategaeth Sgiliau

Mae'r gwaith o adolygu a diweddaru cynlluniau iaith y gwasanaethau wedi parhau. Cyflwynwyd templed newydd ar gyfer y cynlluniau, sy'n ei gwneud yn haws i Benaethiaid Gwasanaeth gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau bellach wedi llunio cynllun drafft yn y templed newydd a byddwn yn mynd ati i fireinio'r cynlluniau ac yn mewnforio'r wybodaeth o'r arolwg sgiliau iaith Gymraeg a gynhaliwyd y llynedd i'r cynlluniau. Mae'r gwaith hwn yn ein gosod mewn lle cryf i asesu capasiti gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer y Seithfed Senedd.

Rydym eisoes wrthi'n gosod y sylfaen ar gyfer arolwg sgiliau iaith cynhwysfawr ar draws y sefydliad, i'w gynnal yn y Seithfed Senedd, er mwyn mapio'n fanwl sgiliau ac anghenion ieithyddol pawb o fewn y Senedd – yn cynnwys Aelodau, staff cymorth, staff y grwpiau a holl weithlu'r Comisiwn.

Wedi cyfnod peilot y llynedd, mabwysiadwyd Matrics Sgiliau Iaith Gymraeg newydd sy'n cynnig disgrifiadau mwy eglur o'r gwahanol lefelau ac yn cysylltu'r lefelau â chyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol neu gymwysterau eraill er mwyn rhoi cyd-destun i'r sawl sy'n hunan asesu. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith fod unigolion yn aml yn tanbrisio eu sgiliau ieithyddol wrth hunan asesu, a'r gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau darlun eglur a chywir o sgiliau iaith staff Comisiwn y Senedd.


Dydd Gwyl Dewi hapus!
Cenhinen Bedr
Cennin Pedr

# Gwybodaeth Ystadegol

Yn unol â Safon Gwasanaeth 11.3 y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd gynnwys gwybodaeth ystadegol yn ei adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac yn rhoi'r Cynllun ar waith yn gyson ac yn unol â'r holl safonau gwasanaeth a disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Darparwyd y wybodaeth ystadegol o'r flwyddyn flaenorol er gwybodaeth hefyd.

## Recriwtio

***Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch***

### Allanol

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 47 | 32 | 0 | 15 |
| **2022-23** | 51 | 34 | 0 | 17 |
| **2023-24** | 34 | 24 | 0 | 10 |
| **2024-25** | **40** | **29** | **0** | **11** |

### Mewnol

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 20 | 9 | 0 | 11 |
| **2022-23** | 19 | 13 | 0 | 6 |
| **2023-24** | 27 | 20 | 0 | 7 |
| **2024-25** | **36** | **28** | **0** | **8** |

### Cyfanswm

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau * | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 67 | 41 | 0 | 26 |
| **2022-23** | 70 | 47 | 0 | 23 |
| **2023-24** | 61 | 44 | 0 | 17 |
| **2024-25** | **76** | **57** | **0** | **19** |

**Canrannau**

| | Swyddi lefel cwrteisi | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|
| **2021-22** | 61% | 39% |
| **2022-23** | 67% | 33% |
| **2023-24** | 72% | 28% |
| **2024-25** | 75% | 25% |

Caiff lefel y sgiliau iaith sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ei nodi yng nghynlluniau iaith y gwasanaethau unigol trwy drafodaeth rhwng y Cyd-gysylltydd Ieithoedd Swyddogol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Tîm Ieithoedd Swyddogol. Mae cadarnhau'r gofynion sgiliau iaith ar gyfer pob swydd wag neu swydd newydd yn rhan o'r broses ar gyfer cael caniatâd i hysbysebu gan y Bwrdd Gweithredol.

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd gostyngiad yn nifer y swyddi lefel 1 – 5 a hysbysebwyd. Mae'r rhan fwyaf o swyddi a hysbysebwyd yn rhai sydd wedi dod yn wag oherwydd bod unigolyn wedi symud ymlaen i swydd wahanol naill ai yn fewnol neu yn allanol. Mae'r swyddi newydd sy'n cael eu hysbysebu fel paratoad ar gyfer y Seithfed Senedd wedi eu hasesu yn unol ag anghenion y rôl a'r gwasanaeth a gosodir gofynion sgiliau iaith yn unol â Chynlluniau Iaith y Gwasanaethau unigol. Mae canlyniadau'r arolwg sgiliau iaith Gymraeg a gynhaliwyd fis Ebrill y llynedd yn rhoi sicrwydd nad yw nifer yr aelodau o staff â sgiliau iaith Gymraeg yn gostwng. Yn wir, mae nifer yr aelodau o staff sy'n hunan asesu ar lefel 4 neu 5 wedi aros yn gyson, gyda nifer yr aelodau o staff â sgiliau lefel 1 – 3 yn cynyddu. Mae nifer yr aelodau o staff sy'n nodi nad oes sgiliau iaith Gymraeg o gwbl ganddynt wedi gostwng.

## Busnes y Senedd

***Tabl 2: Dogfennau a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ar gyfer y flwyddyn 2024 - 25.***

| Math o ddogfen | Cymraeg | Saesneg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|
| **Paratowyd yn fewnol** | | 35 | 1154 |
| **Ysgrifennydd Gwladol** | | 20 | 4 |
| **Llywodraeth Cymru** | | 40 | 1079 |
| **Aelodau unigol** | | 21 | 9 |
| **Allanol** | 33 | 677 | 314 |

Mae Pwyllgorau'r Senedd yn paratoi pob dogfen sydd i'w chyhoeddi ar wefan y Senedd yn ddwyieithog. Yn unol â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, bydd

llythyrau a dogfennau ar gyfer unigolion neu sefydliadau sydd wedi datgan eu dewis iaith yn cael eu paratoi yn yr iaith honno yn unig. Mater i aelodau'r pwyllgorau unigol yw penderfynu ar ba ffurf y caiff dogfennau sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn sesiynau preifat (e.e. adroddiadau drafft), a dogfennau briffio i'r Aelodau eu darparu. Mae hyn yn cynnwys iaith y dogfennau hynny. Mae'r aelodau o staff sy'n cefnogi'r Pwyllgorau yn trafod gyda'r Aelodau er mwyn deall eu dulliau gweithio, a sicrhau eu bod yn gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chymryd rhan mewn trafodion yn amserol, ac yn eu dewis iaith swyddogol.

***Tabl 3: Nifer y dogfennau a osodwyd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.***

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| **2021-22** | 930 | 69 | 7% |
| **2022-23** | 885 | 47 | 5% |
| **2023-24** | 777 | 39 | 5% |
| **2024-25** | **811** | **33** | **4%** |

Mae dogfennau a baratowyd gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu paratoi a'u gosod yn ddwyieithog. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.4 rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, y llywodraeth, unrhyw bwyllgor neu'r Clerc gael ei osod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae'r dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog eleni yn syrthio i ddau gategori:

- Adroddiadau gan gyrff allanol y mae gofyn i Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru eu gosod gerbron y Senedd;
- Is-ddeddfwriaeth;

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi parhau i geisio mynd i'r afael â mater hirsefydlog yn ymwneud â rhai mathau o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gosod yn y Senedd yn Saesneg yn unig.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol y llynedd, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i bwyllgorau yn Senedd y DU am eu barn ar y rhwystrau gweithdrefnol o ran gosod offerynnau dwyieithog yn Senedd y DU.  Yn ei ymateb, nododd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin nad oes gweithdrefnau yn eu lle sy'n golygu na ellir gosod offerynnau yn ddwyieithog os yw hynny'n ofynnol yn unol â'r Ddeddf berthnasol.

Yn Ebrill 2024, ysgrifennodd y Pwyllgor at Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru bryd hynny, sef Mick Antoniw AS, i dynnu ei sylw at sylwadau pwyllgorau Senedd y DU. Roedd y Cwnsler Cyffredinol yn croesawu'r sylwadau, ond dywedodd fod safbwynt sefydledig Llywodraeth y Du – y dylai'r offerynnau perthnasol gael eu gwneud yn Saesneg yn unig – yn rhwystr sylweddol i'r posibilrwydd o fynd i'r afael â'r mater.

O ganlyniad, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Gwir Anrh. Jo Stevens AS fis Medi 2024 i geisio deall safbwynt Llywodraeth y DU. Wrth ymateb, tynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol sylw at ddatganiad y Pwyllgor Gweithdrefnau y gellir gosod offerynnau yn ddwyieithog os yw hynny'n ofynnol yn unol â'r Ddeddf berthnasol. Yn sgil y ffaith nad oes gofynion statudol sy'n rhagnodi ym mha iaith y mae'n rhaid i offerynnau statudol gael eu gwneud, nododd yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'r 'sefyllfa ddiofyn' fyddai i'r offerynnau statudol perthnasol gael eu gosod yn Saesneg yn unig.

Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Pwyllgor Gweithdrefnau eto i ofyn am eglurder ar y mater, a bydd yr ymatebion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan pan fyddant wedi dod i law.

***Tabl 4: Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno***

| Blwyddyn | Cwest Llafar | Cwest Ysg | Cynigion | Gwelliannau | Dat Barn | Cwest Amserol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-22 (Cym)** | 14% | 4% | 2% | 4% | 10% | 18% |
| **2021-22 (Dwy)** | 0 | 0 | 11% | 11% | 3% | 0 |
| **2022-23 (Cym)** | 15% | 3% | 2% | 0 | 6% | 10% |
| **2022-23 (Dwy)** | 0 | 0 | 51% | 32% | 2% | 0 |
| **2023-24 (Cym)** | 9% | 1% | 3% | 11% | 4% | 6% |
| **2023-24 (Dwy)** | 1% | 0 | 55% | 31% | 2% | 0 |
| **2024-25 (Cym)** | 11% | 9% | 6% | 25% | 1.5% | 7% |
| **2024-25 (Dwy)** | 1.5% | 0.5% | 63% | 32% | 3% | 0% |

Gall Aelodau unigol gyflwyno busnes yn eu dewis iaith. Mae hyfforddiant ar gael i Aelodau a staff cymorth sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig, a byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r hyfforddiant ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i ddefnyddio'u sgiliau wrth gyflwyno busnes.

## Trafodion

***Tabl 5: Canran y cyfraniadau yn Gymraeg yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn, ac mewn cyfarfodydd Pwyllgorau.***

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2021-22 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2022-23 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2023-24 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| **Trafodion y Cyfarfod Llawn** | 30% | 30% | 28% | 29% |
| **Trafodion Pwyllgorau** | 12% | 8% | 9% | 9% |

Gall Aelodau dderbyn cefnogaeth yn eu dewis iaith swyddogol wrth baratoi ar gyfer trafodion y cyfarfod llawn a phwyllgorau, gan gynnwys dogfennau briffio. Mae nifer o faterion allanol yn effeithio ar ganran y cyfraniadau gan gynnwys dewis iaith tystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau, a natur llai strwythuredig y trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgorau.

Mae'r ffigyrau'r cyfraniadau mewn cyfarfodydd pwyllgorau yn parhau yn destun pryder. Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i sicrhau bod Aelodau ac eraill sy'n cymryd rhan mewn trafodion yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio'u dewis iaith mewn trafodion, ac yn hyderus i wneud hynny. Yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau megis hyfforddiant wedi'i deilwra i'r Aelodau sy'n dysgu Cymraeg, dogfennau briffio dwyieithog a geirfaoedd. Mae trefniadau pwyllgorau eisoes yn cael eu cryfhau: cynigir sgript safonol i bob Cadeirydd, i annog cyfraniadau Cymraeg, a byddwn yn datblygu ar y cyd â Fforwm y Cadeiryddion gynllun i ehangu defnydd y Gymraeg mewn pwyllgorau i'w beilota yn 2025-26. Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd, bydd angen i ni ddeall yn well y rhesymau dros y lefelau isel o gyfraniadau Cymraeg, a thrafod pa fath o gefnogaeth fyddai'n annog cyfranogwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn trafodion.



# Themâu

## Caffael

Defnyddiwyd y gofynion answyddogaethol a fabwysiadwyd y llynedd ar gyfer sawl proses gaffael eleni. Mae tendrau yn cael eu hasesu yn erbyn y gofynion gyda'r sgôr yn cyfrif fel rhan o'r asesiad o holl ofynion y prosiect. Ar y cyfan, mae'r gofynion wedi gweithio'n dda, ac wedi sicrhau bod y sawl sy'n cyflwyno tendrau yn ymwybodol o'n hethos fel sefydliad dwyieithog a'r hyn a olygir wrth ddarpariaeth ddwyieithog ddiofyn. Fodd bynnag, mae'r profiad o gyflwyno'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres yn ddiweddar wedi rhoi cyfle i ni ystyried unwaith eto yr hyn fyddai'n helpu'r sawl sy'n cyflwyno tendrau i ddeall ein hethos a'n diwylliant. Bydd y broses o gasglu gwersi a ddysgwyd ar gyfer y prosiect hwn yn gyfle i ni ailasesu'r math o wybodaeth sydd ei angen ar gwmnïau sy'n cyflwyno tendrau ac yn ymateb i'r gofynion answyddogaethol.

## Sgiliau Iaith

Wrth gynllunio ar gyfer y Seithfed Senedd, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi ychwanegu at ein darpariaeth y tu hwnt i gyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau darpariaeth wedi'i deilwra i'r Senedd. Wedi cyfnod peilot llwyddiannus y llynedd, cafodd y Modiwl Cwrteisi newydd ei fabwysiadu. Bellach mae'r modiwl ar gael i aelodau o staff y Comisiwn sy'n cael eu penodi i swyddi lefel Cwrteisi fel rhan o'u cyfnod cynefino, ac i unrhyw un arall sy'n dymuno derbyn yr hyfforddiant gan gynnwys Aelodau a'u staff cymorth.

Mae'r ddarpariaeth eang o hyfforddiant a chefnogaeth i'r sawl sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn parhau, ac eleni mae 23 siaradwr newydd wedi sefyll arholiadau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ogystal â darparu gwersi a chefnogaeth i siaradwyr Cymraeg newydd, rydym eleni wedi canolbwyntio ar y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg mwy profiadol. Yn ogystal â'r ddarpariaeth gloywi iaith sy'n parhau, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol hefyd wedi cydweithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnig cyfle i staff y Comisiwn a staff cymorth ennill y Dystysgrif Sgiliau Iaith. Mae'r Dystysgrif yn rhoi tystiolaeth ffurfiol o lefel sgiliau iaith Gymraeg, a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae pedwar ymgeisydd yn gweithio tuag at y cymhwyster ar hyn o bryd. Ymhellach i hynny, mae'r tîm hefyd wedi datblygu Modiwl Hyder Cymraeg. Nod y modiwl yw cynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg wella eu sgiliau Cymraeg llafar, a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'u sgiliau yn y gwaith. Byddwn yn peilota'r modiwl yn ystod tymor yr haf 2025. Y gobaith yw y bydd modd cynnig y modiwl hwn a'r Modiwl Cwrteisi yn rheolaidd fel rhan o ddarpariaeth y tîm.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd Comisiwn y Senedd hefyd yn mabwysiadu'r elfen Ddysgu o'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres. Fel rhan o'r broses, mae'n debygol y bydd cyfleuster newydd ar gyfer darparu e-hyfforddiant. Bydd hyn yn amserol fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, ac yn gyfle i'r Tîm Ieithoedd Swyddogol adolygu'r adnoddau e-ddysgu sydd ar gael i'r sawl sy'n dymuno astudio yn annibynnol. Bydd y tîm hefyd yn gallu datblygu pecynnau o e-ddysgu wedi'u teilwra at anghenion Aelodau, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Y gobaith yw y bydd y pecynnau hyn ar gael i'w dosbarthu fel rhan o'r cyfnod cynefino ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

## Defnyddio Sgiliau Cymraeg

Fel y soniwyd eisoes, mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn darparu hyfforddiant i ddatblygu neu wella sgiliau iaith Gymraeg Aelodau a'u staff cymorth. Rhan annatod o'r gwaith hwn yw chwilio am ffyrdd i gefnogi Aelodau i barhau i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn hyderus mewn cyfarfodydd ac mewn digwyddiadau ar yr ystâd. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno gwneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau wrth eu gwaith boed ar lafar neu yn ysgrifenedig. Gall y tîm ddarparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer unigolion neu grwpiau hefyd yn ôl y gofyn.

Mae'r tîm cyfieithu ar y pryd yn ymwybodol o'r datblygiadau yn y maes ac mae eu harbenigedd yn sicrhau'r profiad gorau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran yr offer a'r dechnoleg cyfieithu ar y pryd sy'n cael eu defnyddio mewn trafodion. Roedd darparu offer dibynadwy, hylaw a hwylus yn ganolog i ystyriaethau prosiect y Siambr ar ei newydd wedd, a'r gwaith o symud trafodion i Siambr Hywel dros dro.

Mae ein hieithoedd swyddogol hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith cynllunio ehangach ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae cynrychiolaeth o'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ar Fwrdd Prosiect y Seithfed Senedd er mwyn sicrhau trosolwg o'r holl ddatblygiadau a newidiadau sy'n digwydd. Fel rhan o'r gwaith o ystyried y fframwaith ieithoedd swyddogol i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas ar gyfer y Seithfed Senedd, byddwn yn gweithio ar ymagwedd i sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth am ddewis iaith Aelodau. Y bwriadu yw i gasglu'r wybodaeth fel rhan o'r broses gynefino yn ystod y dyddiau cynnar wedi'r etholiad. Bryd hynny, byddwn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth Aelodau o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'u hawl i ddefnyddio eu dewis iaith swyddogol ym mhob elfen o'u gwaith. Byddwn hefyd yn ceisio ddeall mwy am eu hanghenion o ran hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg, ac yn rhoi gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt boed hynny gan y tîm neu trwy dechnoleg.

# Monitro a Chydymffurfio

Derbyniwyd tri chŵyn eleni, a llwyddwyd i ymdrin â hwy ar lefel anffurfiol heb orfod symud i'r broses gwyno ffurfiol. Roedd y cwynion yn ymwneud â

**Dewis iaith aelodau o staff cymorth wrth iddynt ymuno â'r sefydliad**

Roedd aelod newydd o staff cymorth yn dymuno cael cyfeiriad e-bost a rhyngwynebau TGCh Cymraeg. Ni wnaed cofnod priodol o ddewis iaith swyddogol yr unigolyn fel rhan o'r broses o wneud cais am offer TGCh. Yn y lle cyntaf, aethpwyd ati i sicrhau bod yr aelod o staff cymorth yn gallu defnyddio rhyngwynebau ac ati yn eu dewis iaith cyn gynted a phosibl, a newidiwyd y cyfeiriad e-bost. Wedi hynny, gwnaed newidiadau i'r ffurflen gwneud cais am broffil ac offer i staff cymorth newydd er mwyn sicrhau nad oes modd hepgor y wybodaeth am ddewis iaith yr unigolyn yn y dyfodol. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth bellach gyda'r unigolyn ac roedd yn gyfle i'r timau dan sylw ddeall mwy am sut mae staff cymorth yn gweithio a'u disgwyliadau o ran ein hieithoedd swyddogol.

**Llythyr ar ran pwyllgor yn Saesneg yn unig**

Yn dilyn sesiwn graffu gan un o bwyllgorau'r Senedd, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon gyda chwestiynau a sylwadau pellach at y tyst. Yn anffodus, anfonwyd y llythyr yn Saesneg yn unig gyda'r Gymraeg yn dilyn yn hwyrach. Fodd bynnag, roedd y sawl oedd yn derbyn y llythyr wedi rhoi gwybod i ni mai Cymraeg oedd dewis iaith swyddogol. O ganlyniad nid oedd modd iddynt weithredu ar gynnwys y llythyr hyd nes iddynt dderbyn y fersiwn Cymraeg yn hwyrach. Wedi ymchwilio i'r gŵyn roedd yn amlwg mai camgymeriad oedd hyn, ac nid oedd yn adlewyrchiad o brosesau arferol y tîm. Aethpwyd ati i gysylltu â'r achwynydd i ymddiheuro ac i egluro mai camgymeriad oedd hyn. Yn ogystal, manteisiwyd ar y cyfle i atgyfnerthu'r prosesau ar gyfer anfon gohebiaeth ar ran pwyllgorau, sef anfon gohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd os yw hynny'n wybyddus, neu fel arall i anfon pob gohebiaeth yn ddwyieithog gyda'r fersiynau'n cael eu hanfon ar yr un pryd.

## Y gyfundrefn ar gyfer recriwtio i swyddi uwch swyddogion a phenodiadau cyhoeddus

Derbyniwyd cwyn ynghylch y ffaith fod Comisiwn y Senedd yn defnyddio asiantaeth i recriwtio i swyddi uwch swyddogion a phenodiadau cyhoeddus, ac nad oedd pob elfen o ddarpariaeth yr asiantaeth yn cyd-fynd â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Wedi ymchwilio, daethpwyd i'r casgliad nad oeddem wedi cydymffurfio â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol o ran y gwasanaeth a ddarparwyd ar ein rhan gan drydydd parti, a hynny er gwaetha'r ffaith ein bod wedi amlinellu ein disgwyliadau o ran dwyieithrwydd i'r asiantaeth. Nid oedd yr asiantaeth wedi llwyddo i ddarparu gwasanaeth o'r safon ddisgwyliedig i'r siaradwyr Cymraeg sy'n cysylltu â'r asiantaeth, neu yn dymuno ymgeisio am swydd. O ganlyniad, cymerwyd camau i unioni'r mater er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath yn y dyfodol. Byddwn, wrth hysbysebu swyddi yn y dyfodol gyda'r asiantaeth, yn atgyfnerthu'r angen i sicrhau bod y broses yn gwbl ddwyieithog a bod angen cyfathrebu ag unigolion yn eu dewis iaith a hynny yn ddiofyn. Byddwn hefyd yn edrych eto ar yr gynnwys y contract ar gyfer gwasanaethau recriwtio yn ystod y broses gaffael pan fydd y contract yn cael ei hysbysebu i'w adnewyddu.

## Methu â chydymffurfio

Rydym hefyd wedi methu â chyrraedd y safonau uchel sydd wedi eu gosod yn y Cynllun, neu wedi methu â bodloni disgwyliadau defnyddwyr ein gwasanaethau a hynny mewn perthynas â'r papurau a ddarparwyd ar gyfer un o gyfarfodydd Comisiwn y Senedd. Roedd natur y drafodaeth, gan gynnwys y ffaith fod materion wedi newid yn gyflym, hyd a nifer y papurau a'r angen am gyfraniadau gan sefydliadau allanol yn golygu nad oedd modd cyfieithu'r holl bapurau i Gymraeg mewn pryd ar gyfer y cyfarfod. Ymddiheurwyd i'r Comisiynwyr a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod papurau'n cael eu paratoi mewn da bryd i gael eu cyfieithu ar gyfer pob cyfarfod.


EVERYMAN



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales